


Sesiwn Gweithgareddau Cristingl

Nod y sesiwn hon yw cyflwyno plant a theuluoedd i'r Cristingl, ac esbonio pob elfen ohono a gweithio gyda nhw i greu un. Gall orffen gyda gwasanaeth byr (sydd yn y pecyn) ac amser i fwyta gyda'ch gilydd wedi hynny.

Yn draddodiadol, mae gwasanaethau Cristingl yn cael eu cynnal adeg y Nadolig ond gellir eu defnyddio ar ôl y Nadolig a hyd at Wyl Fair y Canhwyllau, gan ganolbwyntio ar Iesu fel goleuni'r byd.



Cyflwyniad

Gellir defnyddio'r fideo hwn i esbonio'r Cristingl a chyflwyno'r sesiwn <https://vimeo.com/7881424>

Gêm

Chwaraewch y gêm 'drosodd a thanodd' gan ddefnyddio orennau. Gofynnwch i'r plant sefyll mewn llinell, un ar ôl y llall. Bydd y person cyntaf yn pasio'r oren dros ei ben i'r person y tu ôl iddo, a fydd yn pasio'r oren o dan ei goesau i'r person y tu ôl iddo ac ati.



Ar ôl i'r oren gyrraedd y person yng nghefn y llinell bydd y person hwnnw'n rhedeg i'r blaen ac yn ei basio dros ei ben.

Mae'r gêm yn parhau tan fod y llinell fel yr oedd ar y dechrau, gyda phwy bynnag ddechreuodd yn ôl yn ei le. Gall y gêm

hon gael ei chwarae mewn timau o'r un niferoedd, gan gynnal ras i weld pwy all orffen yn gyntaf.

Crefftau

Mae'r sesiwn hon yn gweithio orau gyda lle gwag yn y canol a byrddau wedi'u gosod o gwmpas yr ochr. Bydd popeth sydd ei angen i greu Cristingl ar y byrddau. Byddwch yn egluro pob elfen gan ddefnyddio gêm neu weithgaredd. Bydd yr holl elfennau'n cael eu gosod ar y Cristingl, un cam ar y tro, a bydd pawb yn dychwelyd i'r canol ar gyfer pob esboniad.

Bydd angen y canlynol arnoch;

Platiau papur
Orennau
Ffyn coctel
Losin neu resins

.....

Yr Oren

Gofynnwch i'r plant sefyll mewn cylch. Ydyn nhw'n gallu meddwl beth mae'r oren yn ei gynrychioli yn y Cristingl? Beth arall sydd o'r un siâp? Y byd. Mae'r oren yn ein hatgoffa o'r byd i gyd, sy'n llawn o gariad Duw a'i greadigaethau.

Wrth i chi sefyll mewn cylch, taflwch bêl, balw'n (neu oren o bosib!) o un person i'r llall. Pan fyddwch yn dal yr eitem dywedwch "Fy enw i yw ac fe greodd Duw" gan enwi rhywbeth sy'n dechrau â'r un lythyren â'ch enw.

Mae hon yn gêm wych ar gyfer dod i nabod eich gilydd yn ogystal â chyflwyno elfen gyntaf y Cristingl.

Ar ôl y gêm hon gall pob plentyn fynd i roi ei oren ar blât papur ar y bwrdd ac ysgrifennu ei enw ar y plât papur.

Rhuban coch



Ar ôl i'r plant i gyd gael lle wrth fwrdd ar gyfer eu horennau, gallant ddod yn ôl i'r canol i ddysgu am yr elfen nesaf.

Gallech greu un Cristingl ymlaen llaw neu gallech ddefnyddio fersiwn fawr. Gofynnwch iddynt beth sydd i'w weld o gwmpas canol yr oren a beth mae'n ei gynrychioli.

Mae'r rhuban yn cynrychioli cariad. Pam? Mae'n ein hatgoffa o'r gwaed a gollodd Iesu ar y groes ac mae'n rhedeg yr holl ffordd o gwmpas y canol i ddangos bod cariad Duw yn ymestyn i bob cwr o'r byd.

Safwch mewn cylch unwaith eto a gofynnwch i'r plant ddal dwylo. Gwahanwch un pâr o ddwylo a rhowch gylch hwla yno. Yna gofynnwch iddynt ddal dwylo eto.

Y gêm yw i basio'r cylch hwla o gwmpas y cylch heb golli gafael yn nwylo eich gilydd. Bydd angen i chi gamu i mewn i'r cylch hwla a'i basio dros eich pen ac ymlaen i'r person nesaf.

Gofynnwch i bob plentyn ychwanegu'r rhuban coch at ei oren.


Ffyn coctel

Ewch yn ôl i ganol yr ystafell unwaith eto. Erbyn hyn dylent allu dweud pa elfen sy'n dod nesaf. Mae'r ffyn coctel yn cynrychioli pedwar ban byd. Beth yw'r pedwar? Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin. Mae'r gannwyll yn y canol yn cynrychioli goleuni yn disgleirio i bob cwr o'r byd.

Dewiswch 1 wal yn yr ystafell i gynrychioli'r Gogledd a gofynnwch iddynt beth fyddai'r wal gyferbyn (De). Gwnewch yr un peth ar gyfer y Dwyrain a'r Gorllewin.

Bydd y plant yn dechrau yn y canol a byddwch chi'n dweud 'Gogledd', 'De', 'Dwyrain' neu 'Gorllewin' a byddant yn rhedeg at y wal gywir.

Gofynnwch i bob plentyn ychwanegu'r ffyn coctel at ei oren.



Cannwyll pen-blwydd

Rydych chi eisoes wedi dweud bod y gannwyll yn cynrychioli goleuni. Cannwyll pen-blwydd yw hon. Pa berson arbennig gafodd ei eni i fod yn oleuni i'r byd? Mae'r goleuni'n cynrychioli Iesu.

Rhannwch y grŵp yn ddau dîm a rhowch falŵn melyn i bob tîm. Nod y gêm yw pasio'r balŵn o gwmpas fel bod pob aelod o'r tîm wedi'i gyffwrdd. Ni ddylai'r balŵn gyffwrdd â'r llawr. Y tîm sy'n pasio'r balŵn i bob aelod yn gyntaf yw'r enillwyr.

Gofynnwch i bob plentyn ychwanegu'r gannwyll at ei oren.

Losin/rhesins

Gan gofio bod yr oren yn cynrychioli'r byd, beth allai'r losin/rhesins ei gynrychioli? Dyma greadigaethau Duw – popeth sy'n tyfu yn ein byd a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta.

Chwaraewch gêm syml o 'Salad Ffrwythau' gan ddefnyddio rhai o hoff fwydydd y grŵp, neu wahanol fathau o losin os ydych chi'n defnyddio losin. Gofynnwch i'r plant eistedd ar gadeiriau mewn cylch a'u rhannu i mewn i bedwar grŵp gwahanol, e.e. Smarties, malws melys, losin mân, ffa jeli.

Pan fyddwch yn galw enw un grŵp, bydd pawb sydd wedi cael yr enw hwnnw yn newid lle. Os galwch y gair 'creadigaeth', bydd pawb yn newid lle.

Gofynnwch i bob plentyn ychwanegu ei losin/rhesins at ei oren.



Ewch yn ôl i'r canol ar ôl i bawb orffen ac esboniwch eich bod am orffen gyda gwasanaeth byr i ddatlu'r ffaith mai Iesu yw goleuni'r byd. Byddwch yn goleuo'r Cristinglau am y tro cyntaf hefyd.